

Cyflawni'r gorau i bobl ifanc sy'n gadael gofal




BREUDDWYDION CUDD

Blwyddyn ar ôl cyhoeddi:

Adroddiad dilynol ar
welliannau awdurdodau
lleol ac arfer da wrth
gefnogi ymadawyr gofal

Mae angen i **ymadawyr
gofal gael** yr un math o
gyfleoedd, cymorth a
chefnogaeth ag y mae
pob rhiant yn ceisio'u rhoi
i'w plant wrth iddyn nhw
ddechrau dod o hyd i'w
ffordd yn y byd.



BREUDDWYDION CUDD

ymrwymiad Cymru i bobl ifanc sy'n gadael gofal

Adolygiad o gynnydd awdurdodau lleol

**Rhagair gan Sally Holland,
Comisiynydd Plant Cymru**

Mae blwyddyn wedi mynd heibio ers cyhoeddi fy adroddiad 'Breuddwydion Cudd', oedd yn edrych ar y gefnogaeth oedd ar gael i bobl ifanc wrth adael gofal, mewn perthynas â thai, cyfleoedd addysg a hyfforddiant, a chefnogaeth bersonol ac emosiynol.

Mae ymateb Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol i'r adroddiad hwn wedi bod yn gadarn; maent wedi cydnabod bod barn plant sydd â phrofiad o ofal yn wirioneddol bwysig wrth lunio gwasanaethau i ddiwallu eu hanghenion, ac mae'r ffordd agored o symud ymlaen gydag argymhellion yr adroddiad wedi fy nghalonogi. Mae pob awdurdod lleol wedi cychwyn o fan gwahanol ar eu taith, ond rwy'n falch bod ymdrechion ar waith ledled Cymru i wella'r hyn sy'n cael ei gynnig i bobl ifanc wrth iddyn nhw symud i fod yn annibynnol.

Mae'r adroddiad dilynol hwn yn amlygu meysydd cynnydd ac arfer da, ond hefyd yn codi pwyntiau pwysig ynghylch materion ariannol a threth y cyngor yn arbennig, sydd heb wneud cymaint o gynnydd yn y flwyddyn hyd yma.

Rwy'n edrych ymlaen at barhau i weithio gyda llywodraeth genedlaethol a lleol, a phlant a phobl ifanc sydd â phrofiad o ofal, i barhau i fonitro'r cynnydd yn erbyn argymhellion yr adroddiad gwreiddiol, a symud tuag at Gymru sy'n darparu cefnogaeth addas i'w holl ymadawyr gofal, fel eu bod yn gallu cyflawni eu breuddwydion.

Mawrth 2018

Cydnabyddiaeth

Mae'r adroddiad dilynol hwn wedi cael ei baratoi i mi gan Rhian Allen a Catrin Awoyemi o *Practice Solutions Ltd*. Rwy'n ddiolchgar iddyn nhw am eu hamser a'u hymdrech yn mynd ar ôl ymholiadau gydag awdurdodau lleol ac yn dod â'r wybodaeth hon ynghyd i greu'r adroddiad hwn. Rwy'n falch o fedru rhannu enghreifftiau o wahanol rannau o Gymru ac annog awdurdodau lleol i barhau â'u hymdrechion i ddarparu cefnogaeth a chyfleoedd i ymadawyr gofal yn eu hardal.



CYFLWYNIAD

Ym mis Mawrth 2017 fe gyhoeddodd ni ein hadroddiad 'Breuddwydion Cudd', oedd yn amlygu'r angen am sicrhau bod plant sy'n gadael gofal yn cael 'cyfle cyfartal i fod y gorau gallan nhw fod wrth nesáu at oedolaeth'.

Wedi i'r adroddiad gael ei lansio, buon ni'n ymweld â phob awdurdod lleol i ganfod sut bydden nhw'n rhoi canfyddiadau'r adroddiad ar waith yn eu hardal. Fe wnaethon ni ysgrifennu at bob awdurdod lleol ar ôl y cyfarfodydd hynny i grynhoi'r trafodaethau, gan nodi'r camau gweithredu a gynigiwyd ym mhob cyfarfod er mwyn rhoi darpariaeth newydd ar waith neu ddatblygu'r ddarpariaeth bresennol fel ei bod yn cydweddu'n well ag anghenion eu hymadawyr gofal. Roedd gan bob awdurdod lleol wahanol gryfderau a darpariaeth, ond yr hyn oedd yn bwysig oedd gwrando ar eu carfan benodol o blant a phobl ifanc, er mwyn diwallu eu hanghenion a bod yn atebol iddyn nhw.

Gofynnwyd i bob awdurdod lleol adrodd ynghylch sut bydden nhw'n datblygu ac yn adeiladu ar eu gwasanaethau i bobl ifanc oedd yn gadael gofal. Fe ofynnodd ni'n arbennig i'r adroddiadau hynny gael eu cyfeirio'n bennaf at eu pobl ifanc, eu paratoi mewn cydweithrediad â nhw, ac mewn fformat addas fel llythyr, cylchlythyr neu fideo. Gofynnodd ni i gael ein copïo i fewn iddyn nhw, er mwyn medru monitro cynnydd yn erbyn yr ymrwymadau a wnaed yn y cyfarfodydd cychwynnol. Mae'r adroddiad hwn yn ddadansoddiad o'r ymatebion hynny, mewn perthynas â sut mae awdurdodau lleol yn ymateb i argymhellion yr adroddiad a'u hymrwymadau unigol. Rydym hefyd yn amlygu heriau a meysydd arfer da.

Mae'r adroddiad wedi'i strwythuro yn ôl y tri maes yma:

- **Cymorth i bawb** – gan gynnwys cymorth hyd at 25 oed, p'un a ydynt mewn addysg neu hyfforddiant neu beidio
- **Tai ac incwm** – gan gynnwys cynllunio a chefnogaeth digonol er mwyn symud i'w lle eu hunain
- **Cyfleoedd** – fel Rhieni Corfforaethol, dylai awdurdodau lleol weithredu fel 'busnes teuluol mawr'.

Cefndir

Mae'r wybodaeth a roddwyd i ni wedi cael ei hadolygu a'i dadansoddi yn erbyn argymhellion yr adroddiad gwreiddiol, er mwyn canfod ble mae awdurdodau lleol yn eu cyflawni, neu lle mae cynnydd ar waith.

Roeddem wedi gofyn i awdurdodau lleol adrodd yn ôl i ni erbyn diwedd Hydref 2017 yn nodi eu cynnydd; cawsom ymatebion gan 21 o awdurdodau lleol. Ar ôl dadansoddi'r ymatebion hynny, nodwyd bylchau yn yr wybodaeth ac anfonwyd arolwg at y 22 awdurdod lleol yn gynnar yn 2018. Cafwyd ymatebion i'r arolwg hwn gan 17 o awdurdodau lleol.

Yr wybodaeth sydd ar gael sydd wedi llywio cynnwys yr adroddiad hwn.

CYFLEOEDD I BAWB

Annog pob aelod awdurdod lleol, **fel Rhieni Corfforaethol, i ddarparu cyfleoedd hyfforddiant a phrentisiaeth ar gyfer plantsy'n derbyn** gofal ac ymadawyr gofal, yn eu 'busnes teuluol'.

Mae angen i'r gefnogaeth ar gyfer pobl ifanc gael ei chynnig yn rhagweithiol gan ofalwyr a gweithwyr cymorth, i'w helpu i baratoi ar gyfer cynlluniau hyfforddi a'u cyrchu.

Beth mae awdurdodau wedi'i gyflawni

Mynediad i gyfleoedd hyfforddi a swyddi yw un o'r meysydd y dylai awdurdodau lleol eu hystyried ar gyfer ymadawyr gofal fel rhan o'r 'busnes teuluol mawr'. Mae'r ymatebion gan awdurdodau lleol yn dangos bod yr elfen hon yn derbyn sylw ar amrywiol lefelau trwy amrywiaeth o gynlluniau sy'n cynnwys prentisiaethau, profiad gwaith, gwirfoddoli a chyfleoedd hyfforddi mewn awdurdodau lleol ac mewn rhai ardaloedd gyda busnesau lleol.

Sut mae awdurdodau'n cyflawni'r argymhellion

Roedd ymatebion y 21 awdurdod lleol wrth ymateb i'r cyfarfodydd yn gadarnhaol o ran y cyfleoedd maen nhw'n eu darparu i ymadawyr gofal i'w cefnogi i symud i gyflogaeth a hyfforddiant.

Mae rhai awdurdodau wedi gwneud mwy o gynnydd nag eraill, gyda chefnogaeth a chyfleoedd sefydledig ar waith ar gyfer ymadawyr gofal. Mae gan y cynlluniau mwy sefydledig nifer penodol o gyfleoedd hyfforddi neu brentisiaeth

bob blwyddyn o fewn yr awdurdod, y gall ymadawyr gofal wneud cais amdanynt. Maent hefyd wedi creu cysylltiadau â gwasanaethau cefnogi lleol o'r trydydd sector i wella'r gefnogaeth.

Adroddwyd am **ganlyniadau cadarnhaol** mewn tri awdurdod lle mae pobl ifanc wedi symud ymlaen i gyflogaeth barhaol o fewn yr awdurdod.

Mae rhai awdurdodau lleol wedi nodi angen am gryfhau'r cyfleoedd sy'n cael eu darparu i ymadawyr gofal ac mae rhai wrthi'n datblygu neu'n adolygu'r rheiny er mwyn gwella'r hyn sy'n cael ei gynnig.

Adroddodd pob awdurdod lleol eu bod yn cefnogi eu hymadawyr gofal ag offer ar gyfer gweithio, astudio a hyfforddi, dillad trwsiadus ar gyfer cyfweliadau a chost cludiant, gan gynnwys cymorth i ddysgu gyrru. Roedd y rhan fwyaf o'r cyllid ar gyfer yr adnoddau hyn yn dod o gronfa fwrsariaeth newydd Gŵyl Ddewi. Yn ôl gwybodaeth o Grŵp Cyngori Gweinidogol Llywodraeth Cymru ar Wella Canlyniadau i Blant, ym mis Rhagfyr 2017, roedd adroddiadau 18 awdurdod lleol yn nodi bod 411 person ifanc wedi elwa o'r gronfa hon eisoes.

Heriau

Nid yw awdurdodau wedi sôn am heriau penodol mewn perthynas â'r elfen hon o'r gefnogaeth i ymadawyr gofal. Fodd bynnag, mae bylchau mewn rhai awdurdodau lleol lle na wnaed cysylltiadau â busnesau lleol, ac mae'r cyfleoedd o fewn yr awdurdod lleol yn unig.

Gall creu cysylltiadau â busnesau lleol agor ystod ehangach o sgiliau i'r bobl ifanc eu datblygu, na fyddant o reidrwydd ar gael o fewn yr awdurdod lleol.

Beth sydd wedi gweithio'n dda

Isod ceir enghreifftiau sy'n dangos ymrwymiad gan awdurdodau lleol i gefnogi ymadawyr gofal yn uniongyrchol i gael mynediad i hyfforddiant a phrentisiaethau o fewn yr awdurdodau lleol eu hunain ac mewn rhai ardaloedd gyda chyflogwyr lleol.

- **Mae gan Gonwy** swyddog adnoddau dynol sy'n arwain y broses o ddarparu cyfleoedd gwaith a phrentisiaethau ar gyfer ymadawyr gofal o fewn yr awdurdod.
- **Mae gan Rhondda Cynon Taf** dîm penodol *Care 2 Work*, sy'n gweithio gydag ymadawyr gofal fel rhan o'u cylch gorchwyl; mae ganddyn nhw hefyd gysylltiadau cryf gyda busnesau lleol ar gyfer cyfleoedd gwaith/hyfforddiant.
- **Mae Ceredigion** yn penodi gweithiwr prosiect ymadawyr gofal NEET er mwyn sefydlu a chyrchu lleoliadau i hyfforddeion a phrentisiaethau.
- **Mae gan Sir Fynwy** weithiwr prosiect i gefnogi ymadawyr gofal i oresgyn rhwystrau i hyfforddiant a chyflogaeth.

Dangosodd yr ymatebion gan awdurdodau lleol ynghylch cynlluniau hyfforddeion fod gan y mwyafrif gynlluniau penodol y gallai ymadawyr gofal eu cyrchu. Roedd rhai ymadawyr gofal wedi gwneud cynnydd ar y cynlluniau, a naill ai wedi cael eu cyflogi gan yr awdurdod lleol neu wedi mynd ymlaen i astudio yn y maes a ddewiswyd ganddynt.

Adroddodd Caerdydd fod eu cynllun Hyfforddeion Plant sy'n Derbyn Gofal yn gweithio'n dda, gyda 34 o atgyfeiriadau yn chwarter cyntaf 2017/18. O'r 34 atgyfeiriad, bu 20 yn ymgysylltu â'r cynllun, gydag 15 yn cychwyn ar leoliad hyfforddai a 5 yn cwblhau diwrnodau rhagflas.

Mae Adran Gwasanaethau Adeiladau Corfforaethol Abertawe yn awyddus i sicrhau bod pobl ifanc sy'n gadael gofal yn cael cefnogaeth i wneud cais am y cyfleoedd prentisiaeth sydd ar gael bob blwyddyn, ac mae ganddynt dri ymadawr gofal yn cwblhau prentisiaethau gyda nhw ar hyn o bryd.



Nod cynllun 'Y Tu Hwnt i Frics a Morter' Abertawe yw sicrhau manteision cymunedol yn sgîl holl weithgareddau a chontractau addas y cyngor. Trwy gyflwyno cymalau budd cymunedol i gontractau, megis recriwtio a hyfforddi wedi'u targedu, eu nod yw sicrhau bod aelodau o'r gymuned, yn arbennig pobl ifanc a'r rhai sydd wedi bod allan o'r farchnad swyddi am beth amser, yn cael cyfleoedd hyfforddi a chyflogaeth ystyrlon. Mae ymadawyr gofal yn un o'r grwpiau blaenoriaeth sy'n gallu cyrchu'r cyfleoedd hyn, ac mae'r gwasanaeth gadael gofal yn cael diweddariadau'n rheolaidd wrth i'r rhain godi.

Mae llawer o awdurdodau yng ngogledd a de Cymru hefyd wedi creu cysylltiadau â chynlluniau nad oeddent yn benodol ar gyfer ymadawyr gofal, ond sy'n cymryd i ystyriaeth eu hanghenion, gan eu gweld fel grŵp blaenoriaeth oedd yn gallu cyrchu cefnogaeth.

Y ddwy brif ddolen yw:

Gogledd Cymru – prosiect strategol rhanbarthol yw *Ad Track* sy'n darparu dull gweithredu partneriaeth amlasiantaeth i gefnogi pobl ifanc 16-24 sy'n agored i niwed i symud i waith, addysg neu hyfforddiant. Mae'r cynllun yn agored i'r rhai sy'n NEET, yn byw yng ngogledd Cymru ac yn profi rhwystrau sy'n eu hatal rhag symud ymlaen i addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant. Mae gwasanaethau gadael gofal mewn awdurdodau lleol wedi creu cysylltiadau â'r cynllun, gan sicrhau bod ymadawyr gofal yn gallu cyrchu'r gwasanaethau sy'n darparu cefnogaeth emosiynol yn ogystal â chefnogaeth gyda materion cyflogadwydd.

De Cymru – mae *Inspire to Work* ar gyfer pobl ifanc 16-24 oed sy'n profi rhwystrau i hyfforddiant a chyflogaeth. Mae'r cynllun hwn, fel yr un uchod, yn darparu cefnogaeth unigol i bobl ifanc, i wella'r sgiliau sydd ganddynt y mae galw amdanynt gan gyflogwyr.

Datblygiad newydd mewn ymateb i Breuddwydion Cudd yw'r bartneriaeth 'Peering Ahead' rhwng Lleisiau o Ofal a'r Gwasanaeth Eiriolaeth Ieuencid Cenedlaethol (NYAS), dan arweiniad NYAS. Mae'r cynllun yn cynnwys mentoriaid cyfoedion sy'n ymadawyr gofal neu sydd â dealltwriaeth o'r materion y gall pobl mewn gofal eu hwynebu, ac mae'n agored i ymadawyr gofal rhwng 15 a 25 oed. Mae'r mentoriaid yn cefnogi'r ymadawyr gofal gyda'u nodau cyflogaeth/addysg. Mae gwasanaeth 16+ Caerffili wedi ymgysylltu â'r cynllun ac wedi cytuno y bydd y mentoriaid hefyd yn darparu cefnogaeth lefel isel ar gyfer materion ehangach a all fod yn rhwystr i gyflawni'r nodau hynny. Maent bellach yn gweithio gydag NYAS i ddatblygu proses fydd yn cynnig mentor cyfoedion i bobl ifanc, a lle gall y tîm yng Nghaerffili gael hyd i fentoriaid posibl.



TAI AC INCWM

Dylai awdurdodau lleol defnyddio dogfen Llywodraeth Cymru

Atal Digartrefedd a Hyrwyddo Annibyniaeth: Llwybr

Cadarnhaol tuag at Fyd Oedolion a'r **Fframwaith Llety a**

Chymorth i Ymadawyr Gofal a ddatblygwyd gan Barnardo's i roi arweiniad i bawb sy'n gweithio gydag ymadawyr gofal.

Dylai pob person ifanc sy'n gadael gofal dderbyn pecyn cyson a thryloyw o gefnogaeth ariannol, wedi'i seilio ar **wybodaeth glir**

ynghylch yr arian a'r grantiau y gallant eu cyrchu wrth adael gofal.

Mae'n bwysig bod pobl ifanc ledled Cymru yn cael mynediad i

wybodaeth glir am y budd-daliadau y gallant eu hawlio, sut mae

gwneud hynny, ac â phwy dylen nhw gysylltu i gael cymorth neu

gyngor.

Beth mae awdurdodau wedi'i gyflawni

Mae tystiolaeth bod awdurdodau lleol yn darparu llety priodol os yw hynny ar gael, ond mae heriau hefyd. Mae awdurdodau lleol yn sôn am gysylltiadau agos iawn â chydweithwyr tai, gan gynnwys asesu ar y cyd a threfniadau gweithio ar y cyd. Mewn rhai awdurdodau lleol, defnyddir paneli lle trafodir opsiynau pobl ifanc er mwyn canfod opsiynau tai addas ar sail eu hanghenion.

Mae gwybodaeth ariannol ar gael, ond nid yw bob amser mewn fformat hwylus i bobl ifanc.

Sut mae awdurdodau'n cyflawni'r argymhellion

Mae'r Fframwaith Llety a Chymorth yn nodi pum cyfnod o gefnogi ymadawyr gofal wrth iddyn nhw symud i'w llety eu hunain a symud ymlaen. Dangosir y pum cyfnod, sy'n gysylltiedig â'r ymatebion gan awdurdodau lleol, yn yr adran hwn.

Cyfnod cyntaf

Mae'r cyfnod cyntaf yn cynnwys helpu pobl ifanc sydd mewn gofal i gaffael sgiliau i'w paratoi i fod yn annibynnol. Gofynnodd yr arolwg: **'Ydych chi'n darparu cyfleoedd ar gyfer ymadawyr gofal i'w paratoi ar gyfer symud i'w lle eu hunain?'**

O'r 12 awdurdod a ymatebodd i'r cwestiwn hwn, dywedodd 8 eu bod yn darparu'r cyfleoedd hyn, a dywedodd 4 nad ydynt.

Yn eu hymatebion ysgrifenedig, dywedodd dau awdurdod lleol eu bod yn darparu fflatiau hyfforddi lle gall pobl ifanc aros i baratoi ar gyfer bod â'u lle eu hunain.

Hefyd roedd pedwar awdurdod lleol yn darparu cyrsiau paratoi tenantiaeth. Mae'r cyrsiau'n helpu i baratoi pobl ifanc ar gyfer bod â'u lle eu hunain a dal tenantiaeth.

Ail gyfnod

Yr ail gyfnod yw cynllunio opsiynau llety a chymorth gyda'r bobl ifanc a rhoi cymaint o rybudd â phosibl iddyn nhw ynghylch y symudiad hwn.

Mae peth tystiolaeth o'r ymatebion a'r arolwg gwreiddiol bod perthynas waith dda rhwng timau tai a gwaith cymdeithasol. Mae yna enghreifftiau da o weithio ar y cyd a chynllunio ar gyfer pobl ifanc sy'n symud o ofal i annibyniaeth.

Mae'r gefnogaeth i gynllunio ar gyfer symudiad person ifanc i annibyniaeth yn digwydd trwy'r canlynol:

- Cyfarfodydd misol yn nodi'r bobl ifanc fydd angen llety â chymorth a'r opsiynau tai
- Paneli sy'n cynnwys darparwyr tai a gwasanaethau cymorth llety ar gyfer pobl ifanc
- Asesiad ar y cyd i ganfod y darparwr/ cymorth tai mwyaf addas
- Cydleoli gweithwyr a swyddogion cymorth tai â'r timau gofal plant.

Gofynnwyd i awdurdodau lleol ar ba oed roedd y cynllunio'n cychwyn ar gyfer symud ymlaen i annibyniaeth, ac o'r 11 a atebodd, yr oed cyfartalog yw 16, a'r ifancaf yw 15.

Trydydd cyfnod

Y trydydd cyfnod yw lleihau argyfwng tai pan fydd pobl ifanc yn profi anawsterau wrth gynnal eu llety a'r gefnogaeth angenrheidiol i'w dychwelyd i'r llwybr cywir.

Mae osgoi gwely a brecwast yn flaenoriaeth glir i lawer o awdurdodau lleol, er bod rhai yn sôn eu bod yn dal i ddefnyddio'r mathau hyn o lety mewn argyfwng, os nad oes dewis amgen.

Mae awdurdodau lleol yn barod i ddarparu cymorth ariannol i rai pobl ifanc pan fyddant mewn anawsterau ariannol ac yn debygol o gael eu gwneud yn ddigartref. Mae enghreifftiau da o wasanaethau'n cydweithio i gael hyd i'r opsiwn mwyaf effeithiol er mwyn cefnogi person ifanc sydd mewn argyfwng, gan gynnwys adnabod pobl ifanc sy'n cael trafferthion yn gynnar. Mae ymgynghorwyr personol hefyd yn chwarae rôl bwysig wrth gefnogi pobl ifanc mewn argyfwng, gan weithio gyda staff cymorth eraill megis gweithwyr cefnogi tenantiaeth, darparwyr a swyddogion tai i sicrhau nad yw pobl ifanc yn cael eu gwneud yn ddigartref.

Pedwerydd cyfnod

Y pedwerydd cyfnod yw gallu cael mynediad i dai a chymorth yn ôl y galw, gan y bydd ganddynt wahanol anghenion, y bydd angen eu hadlewyrchu yn y math o dai a chymorth sy'n cael eu darparu ar eu cyfer.

Mae'r broses gynllunio yn amlwg mewn llawer o awdurdodau lleol i sicrhau bod pobl ifanc yn gallu cyrchu tai sy'n addas i'w hanghenion. Mae tystiolaeth o waith da ar y cyd â darparwyr/ gwasanaethau tai i sicrhau bod ystod o opsiynau ar gael. Mae llety â chymorth yn cael ei ddarparu trwy 'Supporting People' mewn llawer o leoedd, sy'n darparu gwahanol lefelau o gymorth yn ôl anghenion y bobl ifanc. Mae llawer o awdurdodau, yn enwedig y rhai yn ne Cymru, yn gweithio gydag Llamau.

Mae llety penodol ar gael mewn rhai ardaloedd, e.e. llety ym Mro Morgannwg ar gyfer un neu ddau berson ifanc sy'n cael trafferth byw mewn llety mwy o faint â chymorth. Mae fflatiau cychwynnol hefyd ar gael i alluogi pobl ifanc i brofi byw'n annibynnol a datblygu eu dealltwriaeth a'u sgiliau ar gyfer byw mewn llety ar rent. Mae gan awdurdodau hefyd baneli 'symud ymlaen', sy'n ystyried gallu'r bobl ifanc i symud ymlaen o lety â chymorth i'w llety eu hunain.

Mae heriau yn sgîl gallu darparu llety, ac mae 7 o'r 14 awdurdod a luniodd ymateb ynghylch y pwynt hwn naill ai'n adolygu argaeledd eu llety neu'n gweithio gyda'r gwasanaethau tai i sicrhau bod llety priodol yn cael ei gomisiynu ar gyfer pobl ifanc.

Pumed cyfnod

Mae'r pumed cyfnod yn ymwneud â sicrhau bod pobl ifanc yn barod i symud ymlaen i lety tymor hwy a chael eu tenantiaeth eu hunain. Mae angen hefyd iddyn nhw wybod ble gallan nhw droi os cânt drafferthion yn y dyfodol.

Mae awdurdodau lleol Ceredigion a Sir Ddinbych yn gweithredu fel gwarantydd ar gyfer pobl ifanc i'w cefnogi i gael eu tenantiaethau eu hunain, gan gynyddu argaeledd llety addas.

Mae gweithio gydag asiantaethau i atal digartrefedd hefyd yn digwydd mewn rhai awdurdodau, ac mae rhai yn cysylltu hynny â gwaith ar ddatblygu 'Llwybrau Cadarnhaol'. Roedd tri o'r awdurdodau lleol yn datblygu dull gweithredu 'Llwybrau Cadarnhaol' er mwyn gwella opsiynau llety a chefnogi ymadawyr gofal. Ceir tystiolaeth hefyd o gefnogi, gan greu cysylltiadau â swyddogion cefnogi tenantiaeth er mwyn helpu ymadawyr gofal pan fyddant yn cael

trafferthion, ymgynghorwyr personol sy'n darparu gwybodaeth, ac adnabod yn gynnar ymadawyr gofal sy'n cael trafferth gyda'u rhent.

Gwybodaeth a chymorth ariannol

Mae gwybodaeth glir, sydd ar gael yn hwylus, ynghylch cymorth ariannol yn cael ei darparu gan rai awdurdodau, ond nid eraill. O'r 13 ymateb i'r cwestiwn yn yr arolwg: **'Ydych chi'n darparu gwybodaeth glir, sydd ar gael yn hwylus, ynghylch y cymorth ariannol sydd ar gael i ymadawyr gofal?'** dywedodd 7 'ydyn' a dywedodd 6 'nac ydyn'.

Roedd y saith awdurdod lleol yn darparu gwybodaeth mewn gwahanol fformatau trwy'r cyfryngau cymdeithasol, gwefan, fideos byr, taflenni ac wyneb yn wyneb. Mae'r wybodaeth wyneb yn wyneb yn amrywio o'u hymgyngorydd personol a chynllunio llwybr i wasanaethau galw heibio sy'n gallu cefnogi ymadawyr gofal gydag amrywiol faterion ariannol. Mae gan Ynys Môn fideo byr, wedi'i animeiddio, sydd ar gael i ymadawyr gofal, ac sy'n cynnwys gwybodaeth ynghylch y meysydd lle mae help ar gael iddyn nhw a manylion cyswllt perthnasol.

Er i'r chwe awdurdod arall roi ateb 'na', mae ganddyn nhw bolisiau yn eu lle neu maen nhw'n darparu gwybodaeth trwy'r gwasanaeth ymgynghorwyr personol a'r cynlluniau llwybr. Dywedodd tri awdurdod fod ganddynt bolisiau ariannol, er i un nodi nad oedd hynny'n 'hwylus i bobl ifanc', ac i'r ddau arall ddweud eu bod neu y byddent yn gweithio gyda'u fforymau ymadawyr gofal i ddatblygu fersiwn pobl ifanc.





Mae cryn bwysigrwydd i sicrhau bod gwybodaeth a chymorth ariannol ar gael i ymadawyr gofal, a gall cymhlethdod peth o'r wybodaeth ynghylch budd-daliadau, o dai i gymorth cyflogaeth, godi ofn. Mae angen darparu ystod o wybodaeth er mwyn sicrhau bod ymadawyr gofal yn gallu cynnal eu llety a'u hunain, a mynychu hyfforddiant a chyflogaeth.

Rhaid i'r wybodaeth fod ar gael o fwy nag un ffynhonnell, ac mae rhai awdurdodau wedi dangos eu bod yn gwneud hynny ar ffurf gwybodaeth ysgrifenedig ac wyneb yn wyneb. Mae angen i wybodaeth ysgrifenedig fod yn glir, ac mae fersiwn pobl ifanc yn gam defnyddiol, ond mae angen cefnogi hynny â gwybodaeth sydd ar gael o ffynonellau eraill megis ymgynghorydd personol neu wasanaethau cymorth lles.

Amlinellodd yr awdurdodau a ymatebodd i'r llythyron a'r arolwg dilynol eu bod yn darparu amrywiaeth o gymorth ariannol i ymadawyr gofal, gan gynnwys grantiau cartref cyntaf, cymhelliad addysg a chymorth ariannol ar gyfer offer gwaith neu hyfforddiant a chysiau coleg.

Gofynnwyd i awdurdodau lleol hefyd **'Ydych chi wedi rhoi gostyngiad neu eithriad Treth Cyngor ar waith ar gyfer ymadawyr gofal?'** Ymatebodd 13 o

awdurdodau lleol i'r cwestiwn hwn.

Ateb chwe awdurdod lleol oedd eu bod heb roi cynllun ar waith ar hyn o bryd ond eu bod yn ystyried y peth; roedd gan bum awdurdod lleol gynllun ar waith, ac roedd dau heb gynllun na bwriad i drefnu un.

Heriau

Pan ofynnwyd **‘Pa rwystrau sydd i ddarparu mynediad i dai addas ar gyfer ymadawyr gofal?’**, nododd awdurdodau lleol mai diffyg stoc tai oedd y prif rwystr i ddarparu tai addas. Nid niferoedd y tai yn unig sydd dan sylw yma, ond diffyg tai addas:

- Llety â chymorth ar gyfer pobl ag anghenion cymhleth
- Diffyg llety i bobl sengl
- Diffyg llety yn yr ardaloedd lle mae pobl eisiau byw.

Mae rhenti preifat yn aml yn rhy uchel, neu dyw landlordiaid ddim am rentu i ymadawyr gofal os bydd tenantiaid eraill yn barod i gymryd yr eiddo.

Dyweddodd pobl ifanc â phrofiad o ofal yr ymgynghorwyd â nhw yng Nghaerffili bod y dewis o lety yn gyfyngedig, a hynny yn yr ardaloedd mwy difreintiedig. Nid yw'r opsiynau hyn yn agos at rwydweithiau cynnal y bobl ifanc, ac felly roeddent yn teimlo'n ynysig ac yn fregus. Nododd y bobl ifanc hefyd anawsterau o ran diffyg opsiynau llety addas ar gyfer y rhai oedd ag anawsterau iechyd meddwl, yn arbennig mewn llety ar y cyd/oedd yn cael ei rannu.

Mae ymrwymiad cadarn gan yr awdurdodau lleol i wella'r opsiynau sydd ar gael i ymadawyr gofal. Maen nhw'n gweithio'n fwriadol gyda darparwyr tai a chefnogi pobl i adolygu'r opsiynau, cynllunio a sicrhau bod llety'n addas ar gyfer anghenion pobl ifanc agored i niwed. Mae enghreifftiau o dimau'n cydweithio i ailfodelu'r hyn sy'n cael ei gynnig i ymadawyr gofal ac yn gweithio ar y cyd i ailgomisiynu llety fel ei fod yn ymateb i'r anghenion a nodwyd.

Mewn perthynas â gwybodaeth ariannol, y prif faes a nodwyd fel un oedd yn destun pryder gan rai awdurdodau oedd gweithredu Credyd Cynhwysol, a chymhlethdodau hynny i ymadawyr gofal. Mae rhai wedi trefnu neu yn trefnu bod gwasanaethau hawliau lles ar gael o fewn yr awdurdodau lleol i gefnogi ymadawyr gofal yn ôl y galw.

Beth sydd wedi gweithio'n dda

Mae Abertawe wedi datblygu 'Llwybr Llety', sef panel sy'n dod â darparwyr tai â chymorth, yn ogystal â chynrychiolwyr o'r gwasanaethau cymdeithasol, Gwasanaethau Digartrefedd leuenctid BAYS a'r adran dai at ei gilydd. Mae'r panel yn derbyn atgyfeiriadau ar gyfer pobl ifanc 16-21 oed sydd ag anghenion llety. Os bydd person ifanc yn profi ansefydlogrwydd o ran llety, bydd hynny'n cael ei roi gerbron y panel Llwybr a'i drafod yno, a bydd yr aelodau'n chwilio am syniadau creadigol er mwyn gweithio gyda'r person ifanc i gyfyngu ar ei risg digartrefedd. Drwy weithio gyda chydweithwyr ym maes tai, maen nhw'n gallu cael hyd i arian yn y Gronfa Ataliaeth fydd yn caniatáu iddyn nhw osod cefnogaeth ychwanegol yn ei lle o amgylch person ifanc pan fydd pryderon y gallai tenantiaeth fethu. Gwneir atgyfeiriadau ar gyfer hyn trwy'r 'Llwybr Llety'.

Datblygodd Caerdydd Borth leuenctid ddwy flynedd yn ôl, ac mae'n gweithio gyda thai ac yn edrych ar y ffordd orau o helpu pobl ifanc i sicrhau'r llety a'r cymorth cywir. Ni fu ganddynt unrhyw bobl ifanc mewn llety gwely a brecwast ers i'r Porth leuenctid gychwyn. Hefyd mae ganddyn nhw bellach fwy o fflatiau hyfforddi ar gael gyda chefnogaeth cyn-tenantiaeth.

Mae Torfaen yn cynnal cyfarfodydd misol gyda chynrychiolwyr budd-dal tai, landlordiaid cymdeithasol, a swyddogion treth cyngor a digartrefedd i edrych ar denantiaethau ymadawyr gofal. Os nodir eu bod yn cael trafferthion, darperir cefnogaeth briodol.

Mae Rhondda Cynon Taf wedi datblygu gwefan o'r enw Two Sides (gweler y ddolen isod), sy'n darparu gwybodaeth hawdd ei darllen ynghylch bod mewn gofal, gan gynnwys gwybodaeth ynghylch gadael gofal. Mae'r wybodaeth wedi'i rhannu'n adrannau sy'n hawdd i bobl ifanc eu darllen a'u deall, ac mae'r safle yn cynnwys gwybodaeth am y cymorth ariannol y bydd ymadawyr gofal yn ei dderbyn a phwy dylen nhw holi am gyngor. Mae Lleisiau o Ofal yn cyfrannu at y wefan hefyd.

<https://www.rctcbc.gov.uk/EN/Resident/ChildrenandFamilies/LookedAfterChildren/WelcometoTwoSides.aspx>

CYMORTH I BAWB

Dylai pob person ifanc sy'n gadael gofal fedru cael mynediad i **gymorth hyd at 25 oed** (p'un a ydynt mewn addysg/hyfforddiant neu beidio).

Dylai awdurdodau lleol ystyried sefydlu **fforymau neu grwpiau trafod ar gyfer ymadawyr gofal yn unig.**

Dylai adrannau gwasanaethau cymdeithasol, tai ac addysg **gydweithio** i helpu i gynllunio symudiad person ifanc at fyw'n annibynnol, yn unol â'r ffyrdd o weithio o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Dylai **awdurdodau lleol a gofalwyr** roi mwy o **ffocws ar ddatblygu sgiliau pobl ifanc ar gyfer annibyniaeth.**

Beth mae awdurdodau lleol wedi'i gyflawni

Mae cynnydd mewn rhai awdurdodau lleol o ran cefnogaeth i ymadawyr gofal hyd at 25 oed. Mae awdurdodau sydd heb roi'r newid hwn ar waith eto yn edrych ar sut gallan nhw gynyddu adnoddau er mwyn gallu darparu gwasanaethau effeithiol.

Mae gan lawer o awdurdodau lleol fforymau a grwpiau sy'n ymwneud â gweithgareddau ymgynghori, y mae rhai ohonynt wedi bod yn eu lle ers peth amser. Mae gwahaniaethau yng nghyfansoddiad grwpiau a'r gweithgareddau maen nhw'n eu gwneud, gan fod rhai yn gyfuniad o bobl ifanc, nid ymadawyr gofal yn unig o reidrwydd.

Mae rhai awdurdodau lleol wedi dechrau ymgysylltu â gofalwyr i ddechrau'r broses o ddatblygu sgiliau ar gyfer annibyniaeth tra bod plant mewn gofal. Mae llawer yn dal i gychwyn ar y gwaith hwn pan fydd pobl ifanc yn gadael gofal, a gall hynny fod yn rhy hwyr ac arwain at anawsterau wrth ymdopi â phwysau ariannol a thasgau angenrheidiol yn y cartref.

Mae awdurdodau lleol hefyd yn gweithio gydag adrannau a gwasanaethau eraill i gefnogi ymadawyr gofal, gan gynnwys rhai yn y broses cynllunio llwybr. Mae ymwneud â'r sefyllfa ar yr adeg hon yn allweddol, gan mai dyma pryd mae pobl ifanc yn cynllunio ar gyfer bod yn annibynnol ac mae ymgysylltiad eraill yn sicrhau cynllunio effeithiol.

Sut mae awdurdodau lleol yn cyflawni'r argymhellion

Cefnogaeth hyd at 25

Gofynnwyd i awdurdodau lleol a ydyn nhw'n darparu cefnogaeth hyd at 25 oed, p'un a ydy'r bobl ifanc mewn addysg neu hyfforddiant neu beidio; ymatebodd 16 o awdurdodau, a dywedodd 12 eu bod wedi codi'r oed, er bod 4 heb wneud hynny. Fodd bynnag, roedd y rhai sydd heb godi'r oed eto yn awyddus i recriwtio mwy o ymgynghorwyr personol er mwyn medru rhoi'r gefnogaeth ar waith. Mae'n galonogol gweld y cynnydd mae awdurdodau lleol yn ei wneud i sicrhau bod pobl ifanc yn cael cefnogaeth am gyfnod hwy.

Fforymau

Mae fforymau plant a phobl ifanc ar gael mewn awdurdodau lleol, rhai ohonynt ar gyfer plant sy'n derbyn gofal ac yn gadael gofal, ac eraill dim ond ar gyfer pobl ifanc sy'n gadael gofal. Gofynnodd yr arolwg i awdurdodau lleol a oedd ganddynt fforwm ymadawyr gofal, ac o'r 15 a ymatebodd, dywedodd 9 fod hynny ganddynt, er i 6 ddweud nad oedd; fodd bynnag, mae 3 o'r awdurdodau wedi nodi eu bod yn gweithio i sefydlu grŵp ymadawyr gofal. Yn ogystal â'r arolwg, roedd pedwar awdurdod lleol a ddywedodd bod ganddynt fforymau, dau yn benodol ar gyfer ymadawyr gofal, a'r lleill yn grwpiau ymgysylltiad ieuencid.

Gweithio mewn partneriaeth

Mae gweithio mewn partneriaeth â thai ac addysg yn sicrhau dull cyfannol o gynllunio dyfodol hirdymor ymadawyr gofal. Os gwneir hyn yn effeithiol, mae'r canlyniadau ar gyfer ymadawyr gofal yn debygol o fod yn fwy cadarnhaol. Mae rhai awdurdodau wedi dweud eu bod yn cydweithio'n agos â gwasanaethau tai i gefnogi ymadawyr gofal, ond mae'r cysylltiadau ag addysg yn llai amlwg, ac nid yw'n glir o'r wybodaeth a gafwyd sut mae'r tri gwasanaeth yn cydweithio. Ceir enghreifftiau o swyddogion cyswllt addysg yn gweithio gyda'r timau gadael gofal pan fydd person ifanc yn bwriadu aros mewn addysg wrth adael gofal. Mae gan rai awdurdodau wasanaethau cymdeithasol ac addysg yn yr un gyfarwyddiaeth, sy'n creu cysylltiadau rhwng y ddau wasanaeth, ond nid oes tystiolaeth glir o sut mae hyn yn gweithio. Mae rhai awdurdodau'n cynnwys addysg yn y broses cynllunio llwybr, ond yna ymddengys bod yr ymgynghorydd personol yn darparu'r gefnogaeth barhaus i'r ymadawr gofal.

Cynnwys gofalwyr wrth ddatblygu sgiliau

Mae gwneud gofalwyr yn rhan o'r gwaith o gefnogi pobl ifanc i ddatblygu sgiliau wrth iddyn nhw dyfu i fyny mewn gofal yn elfen bwysig o baratoi ar gyfer gadael gofal. Fel mae llawer o deuluoedd yn gofalu bod eu plant eu hunain yn dysgu helpu gyda choginio a phobi, a helpu gyda thasgau angenrheidiol o gwmpas y tŷ, mae'n bwysig bod plant sydd mewn gofal maeth yn cael eu cynnwys yn y gweithgareddau hyn.

Mae'n galonogol gweld bod 15 o awdurdodau lleol wedi ymateb 'ydyn' i gwestiwn yr arolwg **'Ydy gofalwyr/leoliadau preswyl yn cael hyfforddiant/cais i ddarparu cefnogaeth i'r plant yn eu gofal ddatblygu eu sgiliau ar gyfer annibyniaeth?'**. Roedd yr ymatebion ffurfiol gan awdurdodau lleol yn cynnwys enghreifftiau o sut mae rhai yn rhoi hyn ar waith, fel yn Sir Ddinbych lle mae hyfforddiant a chefnogaeth yn cael eu rhoi i ofalwyr maeth yng nghyswllt sgiliau byw'n annibynnol. Mae Conwy yn adrodd eu bod yn gweithio tuag at ddarparu hyfforddiant penodol i ofalwyr maeth a darparwyr llety i'w helpu i gefnogi a thywys pobl ifanc wrth iddynt ddatblygu eu sgiliau byw'n annibynnol.

Heriau

Gweithio mewn partneriaeth

Nid yw'n amlwg bob amser bod y gwasanaethau cymdeithasol, tai ac addysg yn gweithio ar y cyd. Mae rhai tystiolaeth o gysylltiadau da rhwng gwasanaethau cymdeithasol a thai i gefnogi ymadawyr gofal, ond o'r ymatebion a gafwyd, mae'r cysylltiad ag addysg yn llai clir, gan mai un awdurdod lleol yn unig soniodd am gysylltiad rhwng y swyddog cyswllt addysg a'r gefnogaeth i ymadawyr gofal. Mae angen eglurder i nodi'r gweithio ar y cyd sy'n digwydd rhwng pob un o'r tri gwasanaeth.

Cynnwys gofalwyr wrth ddatblygu sgiliau

Er bod yr ymatebion i'r cwestiwn ynghylch cefnogaeth yn gadarnhaol, mae heriau ynghlwm wrth sicrhau bod pobl ifanc yn cael eu cefnogi ac yn ymgysylltu â hynny tra'u bod mewn gofal. Roedd un awdurdod lleol a oedd wedi ymgynghori ag ymadawyr gofal yn gofyn am ddefnyddio rhestr gwirio annibyniaeth, oedd yn cael ei darparu i ofalwyr maeth i'w helpu i ddatblygu sgiliau annibyniaeth; dim ond un o'r chwe pherson ifanc oedd yn adnabod y rhestr wirio.

Mae llawer o awdurdodau'n dal i ddarparu cefnogaeth sgiliau annibyniaeth i bobl ifanc wrth iddyn nhw adael gofal; mae hynny'n rhy hwyr. Er bod awdurdodau lleol wedi dweud eu bod yn disgwyl i ofalwyr a darparwyr llety ddatblygu sgiliau annibyniaeth, neu'n eu hyfforddi i wneud hynny, mae angen sicrhau eglurder o ran pryd a sut mae hynny'n cael ei ddarparu. Pan fo pobl ifanc yn derbyn y gefnogaeth ar adeg trosglwyddo i adael gofal, maen nhw'n wynebu llawer o heriau. Bydd straen ychwanegol bod heb sgiliau sylfaenol i fyw'n annibynnol yn ychwanegu at eu pryder ynghylch symud o amgylchedd diogel, meithringar i annibyniaeth.

Beth sydd wedi gweithio'n dda

Mae gan awdurdodau lleol rai prosiectau arloesol ac effeithiol sydd wedi gweithio'n dda, gan gynnwys y canlynol.

Mae gan Sir Benfro Glwb Swper, lle mae ymadawyr gofal yn cwrdd yn wythnosol, a lle maen nhw'n cael cyfle i gymdeithasu a datblygu sgiliau fel coginio a chyllidebu. Mae'r clwb hefyd yn fforwm ar gyfer ymgynghori ag ymadawyr gofal. Mae'r clwb yn cyflawni sawl diben: lleihau ynysu, datblygu sgiliau ac ymgysylltu ag ymadawyr gofal ynghylch gwasanaethau.

Yng Nghonwy, mae Fforwm *Shaping Futures* yn grŵp o bobl ifanc sydd wedi bod mewn gofal ac wedi symud ymlaen. Mae'r aelodau'n awyddus i gefnogi a mentora ymadawyr gofal eraill. Maen nhw'n cwrdd bob chwe wythnos, ac ar hyn o bryd maen nhw wrthi'n paratoi canllaw hwylus i bobl ifanc ar y fersiwn ddiweddaraf o'r Polisi Ariannol ar gyfer Ymadawyr Gofal.

Mae penderfyniadau Torfaen ynghylch sut mae arian yn cael ei wario yn destun craffu gan uwch-reolwyr, ac maen nhw wrthi'n ymgysylltu â phobl ifanc i greu pwyllgor craffu.

Ymateb i Breuddwydion Cudd – Sut mae Awdurdodau Lleol wedi rhoi adborth ar gynnydd

Roedd mwyafrif yr wybodaeth gan awdurdodau lleol yn cynnwys sut roedden nhw'n rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i bobl ifanc ynghylch eu cynnydd ar ôl yr adroddiad Breuddwydion Cudd. Roedd hyn yn rhywbeth roedden ni wedi gofyn i bob awdurdod lleol ymrwymo i'w wneud pan fuon ni'n cyfarfod â nhw, er mwyn sicrhau atebolrwydd a bod yr wybodaeth ddiweddaraf ar gael ar gyfer y bobl ifanc ym mhob ardal awdurdod lleol. Roedd yr ymatebion yn amrywio, gyda rhai

awdurdodau'n darparu adborth ysgrifenedig i bobl ifanc, ac eraill yn manteisio ar y cyfle i ymgynghori â phobl ifanc ar eu barn, ar sail themâu'r adroddiad. Mae eraill yn bwriadu ymgynghori â'u pobl ifanc. Mae dau awdurdod lleol wedi defnyddio clipiau wedi'u hanimeiddio a fideo fel rhan o'u hymateb i'r bobl ifanc.

Mae'r rhai a fu'n ymgynghori wedi gallu nodi meysydd blaenoriaeth y maent wedi cytuno i wneud cynnydd arnynt fesul cam. Gwahoddodd Caerffili bobl ifanc i'r Grŵp Rhianta Corfforaethol ar ôl yr ymgynghoriad, ac ymrwymwyd i ddatrys y materion y cytunwyd arnynt oedd wedi codi o'r ymgynghoriad.

Mae Abertawe wedi cynnwys tri chlip fideo ar eu sianel YouTube (gweler y ddolen isod) yn darparu gwybodaeth ynghylch beth dylen nhw ei ddisgwyl, â phwy gallan nhw siarad, a sut gallan nhw gael cefnogaeth. Datblygodd Ynys Môn glip wedi'i animeiddio (gweler y ddolen isod) sy'n rhoi gwybodaeth o'r cam cynllunio llwybr hyd at adael gofal. Roedd yr ymgynghori ag 8 person ifanc ynghylch y cynnwys yn gadarnhaol, ac mae'r clip bellach ar gael ar wefan y cyngor, YouTube a Facebook, yn ogystal â bod ar gael yn nerbynfia prif swyddfeydd y Cyngor. Mae Ynys Môn hefyd yn bwriadu defnyddio'r clip mewn adolygiadau plant sy'n derbyn gofal pan fydd pobl ifanc yn cyrraedd 16 oed.

Mae'n galonogol gweld bod awdurdodau lleol yn darparu gwybodaeth i bobl ifanc ynghylch sut maen nhw'n ymateb i Breuddwydion Cudd. Mae'r dulliau amrywiol ac arloesol a ddefnyddiwyd i sicrhau bod yr wybodaeth ar gael yn eang yn sicrhau eu bod yn derbyn lefel dda o wybodaeth.

Mae'r ymgysylltiad â phobl ifanc yn dangos ymrwymiad i'w cynnwys yn y broses, a hefyd i ddeall y materion maen nhw'n eu hwynebu a sut mae modd eu goresgyn.

Dolen YouTube Abertawe
<https://www.youtube.com/user/swanseacitycouncil>

Dolen animeiddio Ynys Môn -
<https://www.powtoon.com/c/cGN6QoOF4vb/2/m>

CASGLIADAU

Er bod llawer o'r gefnogaeth oedd yn cael ei hargymell gan adroddiad Breuddwydion Cudd eisoes yn ei lle mewn rhai awdurdodau lleol, mae'r adroddiad wedi bod yn fodd i bob awdurdod lleol ganolbwyntio ar yr hyn y mae angen i ymadawyr gofal fedru ei gyflawni a bod 'y gorau gallan nhw fod wrth nesáu at oedolaeth'

Mae adroddiad Breuddwydion Cudd wedi cael effaith gadarnhaol, ond mae cynnydd yn dal i'w wneud mewn rhai ardaloedd. Mae ymatebion yr awdurdodau lleol yn dangos ymrwymiad i ddatblygu'r hyn maen nhw'n ei gynnig i ymadawyr gofal ar sail yr argymhellion ac i ddangos y cynnydd sy'n cael ei wneud. Daw'r dyfyniad isod o un ymateb i'r arolwg:

'Rwyf wedi gweld dull mwy targedig o ymdrin â'r mater hwn yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Mae'n ymgyrch gadarnhaol, ac mae angen ei chynnal wrth symud ymlaen.'

Mae rhai meysydd arfer da, a bydd rhannu'r rhain yn fodd i awdurdodau ddysgu oddi wrth ei gilydd. Rydyn ni'n cydnabod na fydd rhywbeth sy'n gweithio mewn un ardal o reidrwydd yn gweddu i un arall, ond mae'r cysyniad a dysgu o brofiadau pobl eraill yn ffordd dda o symud ymlaen.

Mae'n galonogol gweld bod awdurdodau lleol hefyd yn blaengynllunio, yn arbennig mewn perthynas â'r newidiadau i fudd-dal wrth i Gredyd Cynhwysol gael ei weithredu. Mae tystiolaeth hefyd o gynllunio datblygu llety priodol ar gyfer anghenion ymadawyr gofal.

At ei gilydd, ceir tystiolaeth o ymrwymiad awdurdodau lleol i ddiwallu anghenion ymadawyr gofal trwy adeiladu ar ymarfer a sefydlwyd eisoes, a symud ymlaen i ddatblygu'r hyn sy'n cael ei gynnig i'r grŵp bregus hwn o bobl ifanc.



BETH NESA?

Mae'r adroddiad yn amlygu amrywiaeth o enghreifftiau o sut mae pethau'n cael eu gwneud ar draws Cymru i ddarparu pecyn cyfannol o gefnogaeth. Rydyn ni'n deall bod awdurdodau lleol mewn sefyllfaoedd gwahanol ac y byddant yn cychwyn o fannau gwahanol yn yr hyn maen nhw'n ei gynnig. Trwy rannu gwybodaeth yn yr adroddiad dilynol hwn, rydyn ni'n gallu parhau i annog y rhai sy'n gweithio gydag ymadawyr gofal i roi cynnig ar wahanol ddulliau o sicrhau bod y gefnogaeth sy'n cael ei chynnig yn diwallu eu hanghenion.

Isod mae rhai meysydd yr hoffon ni dynnu sylw atynt yn arbennig, fel eu bod yn parhau yn ystod y flwyddyn nesaf:

- 1. Rhannu arfer da** – Mae tystiolaeth o arfer da ar waith i gefnogi ymadawyr gofal mewn llawer o'r awdurdodau lleol. Nid yw bob amser yn bosibl bod yn ymwybodol o'r hyn mae awdurdodau eraill yn ei ddarparu wrth gynnal gwasanaethau o ddydd i ddydd; felly, byddai dull o arddangos arfer da yn cefnogi'r cynnydd sy'n cael ei wneud. Byddwn ni'n ysgrifennu at bob awdurdod lleol yn flynyddol i barhau i fonitro cynnydd, ac yn nodi enghreifftiau o arfer da y gellir eu rhannu er mwyn cynnal yr ymrwymadau a welwyd i'r gwaith hwn eisoes. Rydyn ni'n cynnal cofrestr o argymhellion er mwyn olrhain y cynnydd a wnaed o ran y rhain a'r ymrwymadau i gyflawni newid i blant a phobl ifanc; rhoddir sylw i'r rhain yn ein hadroddiadau blynyddol.
- 2. Adolygu gwaith partneriaeth** – Nid yw'n eglur sut mae addysg, gwasanaethau cymdeithasol a thai yn cydweithio ym mhob ardal awdurdod lleol i gefnogi ymadawyr gofal. Mae angen nodi sut mae hyn yn gweithio, ac os oes rhwystrau i gydweithio, beth yw'r rheiny, er mwyn eu datrys. Bydden ni'n annog awdurdodau lleol i 'gadarnhau' eu trefniadau er mwyn sicrhau bod pob adran yn cydweithio i gefnogi'r bobl ifanc yn eu hardal.

- 3. Gwybodaeth ariannol glir** – Mae gwybodaeth yn cael ei darparu i ymadawyr gofal, ond nid yw i gyd ar gael yn hwylus nac mewn fformat sy'n eglur i bob person ifanc. Mae angen i'r wybodaeth fod yn glir, ac er bod cefnogaeth wyneb yn wyneb yn effeithiol, mae gwybodaeth ysgrifenedig hygyrch hefyd yn bwysig i ategu'r hyn ddywedwyd, er mwyn iddyn nhw fedru dychwelyd at yr wybodaeth yn ddiweddarach. Mae angen eglurder hefyd oddi mewn i wasanaethau ynghylch yr hyn y gall ymadawyr gofal ei hawlio o ran grantiau a chyllid o fewn yr awdurdod lleol, gan fod hynny hefyd yn gallu bod yn her i'r rhai sy'n gweithio gydag ymadawyr gofal.

- 4. Treth Cyngor** – Mae'n galonogol bod nifer o awdurdodau lleol wedi cymryd camau ffurfiol eleni i eithrio ymadawyr gofal o dalu treth y cyngor. Bydden ni'n annog pob awdurdod lleol a Llywodraeth Cymru i barhau i gydweithio ar hyn er mwyn sicrhau darpariaeth gyson i ymadawyr gofal ledled Cymru a chyfrannu at fynd i'r afael â'r tlodi cymharol a nodwyd gennym yn achos y grŵp hwn.

Fel y nodwyd uchod, mae'n wirioneddol bwysig cynnal yr ymgrych gadarnhaol hon i sicrhau bod ymadawyr gofal ar draws Cymru yn teimlo budd cefnogaeth ac arian ychwanegol sy'n cael eu darparu. Byddwn ni'n parhau i weithio gyda'r llywodraeth leol a chenedlaethol a phartneriaid cysylltiedig i fonitro cynnydd yn erbyn yr argymhellion gwreiddiol a'r pwyntiau a godwyd yn yr adroddiad dilynol hwn, er mwyn sicrhau canlyniadau gwell ar gyfer ein plant sydd â phrofiad o ofal yng Nghymru.

Comisiynydd Plant Cymru

Ty Ystumllwynarth

Ffordd Phoenix

Llansamlet

Abertawe

SA7 9FS

01792 765600

post@complantcymru.org.uk

facebook.com/childcomwales

[@complantcymru \(Trydar\)](#)

TROEDNODIADAU

Mae'r pobl ifanc yn yr adroddiad hwn yn modelau o Gymru